

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Gorffennaf 2003
Amser: 9.00am tan 12.55pm
Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn **Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bresennol:

David Melding (Cadeirydd)	Canol De Cymru
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru
John Griffiths	Dwyrain Casnewydd
Jane Hutt (Gweinidog)	Bro Morgannwg
Dai Lloyd	Gorllewin De Cymru
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Gwenda Thomas	Castell nedd
Kirsty Williams	Brycheiniog a Sir Faesyfed

Hefyd yn bresennol

Sandy Blair	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Hugh Gardner	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Paul Williams	Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg

Swyddogion

Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
John Hill Tout	Is-adran Perfformiad, Ansawdd a Rheoleiddio'r GIG
Ann Lloyd	Cyfarwyddwr, GIG Cymru
Mike Shanahan	Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol
Richard Tebboth	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Ysgrifenyddiaeth:

Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Peter Jones	Cwmsler y Pwyllgor

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant

1.1 Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Ann Jones. Cymerodd Lynne Neagle ei lle.

1.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog (9.05 – 10.05am)

Papur: HSS(2)-03-03(p.1)

2.1 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau ar ei hadroddiad, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Gweinidog:

Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) - Gweithredu

- ◆ Mae'n bwysig bod meddygon teulu yng Nghymru yn elwa ar y contract newydd yr un pryd â gweddill y DU, ac fe all hyn olygu y byddai'n rhaid prosesu is-ddeddfwriaeth yn gyflym.

- ◆ Mae'r arian ar gyfer ei weithredu wedi'i asesu ledled y DU. Bydd Cymru'n cael £24 miliwn yn 2004-05; £60 miliwn yn 2005-06 a £102 miliwn yn 2005-06.
- ◆ Bydd y contract newydd yn gyfle i ddarparu gwasanaethau yn ôl anghenion lleol. Bydd hefyd yn rhoi rhyddid i'r practis unigol ac yn hybu cydweithio fel tîm.
- ◆ Er nad yw'r "Agenda ar gyfer Newid" yn berthnasol i ymarferwyr nyrsio am eu bod yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y practis, roedd yn codi cwestiynau i'w cyflogwyr ynghylch eu hamodau a thelerau.
- ◆ Mae'n bwysig ystyried technoleg a rheoli gwybodaeth (IM&T) wrth fynd ati i wella'r fframwaith ansawdd ar gyfer gofal sylfaenol.
- ◆ Mae Fforwm y Meddygon Teulu yn gyfrwng pwysig rhwng gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gweithredu'r contract newydd.
- ◆ Bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu ar waith grwpiau'r naw is-brosiect. Bydd cyfle i'r aelodau gadw golwg ar hynt y grwpiau hyn yn adroddiad y Gweinidog.

Rhaqlen y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF)

- ◆ Byddai gwella prosesau cynllunio'r gweithlu yn dangos a fydd yr NSF ar gyfer Iechyd Meddwl yn esgor ar yr angen am recriwtio nyrsys arbenigol.
- ◆ Mae Dr Huw Jenkins wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr ar y Gwasanaethau Gofal Iechyd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Bydd yn gyfrifol am gynllunio polisïau a strategaethau sy'n dylanwadu ar wasanaethau iechyd plant, ond ni fydd yn cymryd rhan uniongyrchol yn yr adolygiad o wasanaethau niwroleg pediatryddol.
- ◆ Mae argymhellion adolygiad y Pwyllgor o wasanaethau i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu bwydo i'r NSF ar gyfer Plant.

Adroddiadau ar yr Arolygiadau o Wasanaethau Cymdeithasol

- ◆ Bydd y Gweinidog yn trafod cynllun gweithredol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn ei hadroddiad nesaf. Yn y cyfamser, os yw'r aelodau'n gwybod am achosion unigol lle bu oedi annerbyniol cyn derbyn adroddiadau, dylent roi'r manylion i'r Gweinidog a bydd hithau'n edrych i mewn iddynt.
- ◆ Mae angen i lywodraeth leol roi mwy o sylw i wasanaethau cymdeithasol. Trwy gael eu cynrychioli ar fyrddau iechyd lleol, dylai hynny arwain at agenda cynllunio mwy cynhwysfawr.

Adroddiad ar Archwiliad ASGC o'r Trefniadau a wnaed gan Gaerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer Diogelu Pobl Hyn yng Nghartrefi Hafod

- ◆ Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn aros am fwy o gyngor cyfreithiol am fod dryswch ynghylch yr hyn y gellid ei gofrestru o dan y Ddeddf Safonau Gofal. Roedd pawb yn ymwybodol o'r angen i symud ymlaen mor gyflym â phosibl. Roedd ASGC a Hafod wrthi'n trafod y trefniadau yn eu cartrefi, a bydd adroddiad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Asesu'r Effaith ar Iechyd

- ◆ Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd fel bod y gymuned leol yn rhan o'r broses. Byddai Canolfan Iechyd Cymru yn gallu hwyluso'r gwaith hwn.

Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant

- ◆ Gofynnodd y Grwp Gorchwyl ar Dlodi Plant am fwy o amser i gwblhau ei adroddiad. Bydd manylion yr amserlen ddiwygiedig yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

Mwy o wybodaeth am argymhellion Grwp Strategaeth Gofal Cymru

- ◆ Bydd adroddiad Grwp Strategaeth Gofal Cymru yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau ddiwedd yr wythnos.

Trafodaethau â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

- ◆ Roedd y Cyngor Partneriaeth wedi cytuno y byddai'r ail gylch o gytundebau polisi rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol unigol ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Roedd rhai awdurdodau eisoes yn eu cyhoeddi ar eu gwefannau.

Cyd-adolygiad o'r Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mlaenau Gwent

- ◆ Mae cynllun gweithredu'n cael ei baratoi ac mae angen cymorth o'r tu allan i wneud newidiadau angenrheidiol. Bydd arolygiad dilynol o wasanaethau plant yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd/Rhagfyr. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cael manylion y cynllun gweithredu yn yr hydref.

Cyd-adolygiad o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol - Dogfen Ymgynghori

- ◆ Bydd copïau Saesneg yn cael eu dosbarthu i'r aelodau ar unwaith, a bydd y cyfieithiad yn dilyn ddiwedd mis Gorffennaf.

Dadansoddiad o'r Ffigurau ar Swyddi Gwag yn y GIG

- ◆ Bydd dadansoddiad manylach o'r swyddi ym mhob grwp staff yn yr adroddiad nesaf.
- ◆ Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan grwpiau staff am yr effaith y gallai ysbytai sefydledig ei chael yn Lloegr.
- ◆ Ym mis Medi bydd y Gweinidog yn cyfarfod â Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a byddant yn trafod bwsarïau a benthyciadau myfyrwyr.

2.2 Fe wnaeth y Cadeirydd ofyn i'r Gweinidog a fyddai modd iddi gyflwyno ei rhaglen ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno ei rhaglen hithau.

Gweithredu

- ◆ Darparu adroddiadau rheolaidd ar waith grwpiau'r is-brosiectau sy'n gweithredu'r contract GMS.
- ◆ Dosbarthu adroddiad Grwp Strategaeth Gofal Cymru.
- ◆ Rhoi manylion y cynllun gweithredu ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol ym Mlaenau Gwent yn yr hydref.
- ◆ Dosbarthu fersiwn Saesneg dogfen ymgynghori'r Cyd-adolygiad ar Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar unwaith, a dosbarthu'r cyfieithiad ddiwedd mis Gorffennaf.
- ◆ Cynnwys y canlynol yn yr adroddiad nesaf:
 - ◆ Y diweddaraf am gynllun gweithredu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
 - ◆ Canlyniad trafodaethau ASGC â Hafod ynghylch y trefniadau yn eu cartrefi.
 - ◆ Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Strategaeth ar Dlodi Plant.
 - ◆ Dadansoddiad manylach o'r swyddi ym mhob grwp staff y GIG.

Eitem 3: Adolygiad Polisi (10.05 - 10.20am)
Papurau: HSS(2)-03-03(p.2) a HSS(2)-03-03(p.2a)

3.1 Dywedodd y Cadeirydd bod consensws yn dod i'r amlwg y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y berthynas rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ei adolygiad. Roedd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn sôn am hyn neu faterion cysylltiedig, ac roedd hefyd yn nodwedd bwysig o'r adolygiad ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

3.2 Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd ystyried capasiti ac agweddau ar drosglwyddo gofal, cymorth yn y cartref, cyfleusterau gofal canolraddol ac adsefydlu. Awgrymwyd hefyd y dylai cynghorydd arbenigol gael ei benodi i helpu'r Pwyllgor gynnal ei adolygiad.

Gweithredu

- ◆ Bydd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn helpu i gynnal astudiaeth gwmpasu, ac yn cyflwyno cylch gorchwyl a chynllun prosiect i'r Pwyllgor yn y cyfarfod cyntaf yn yr hydref.

Eitem 4: Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (10.35 - 12.20pm)
Papur: HSS(2)-03-03(p.3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y canlynol: Paul Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg ac aelod o'r Grwp Cyfeirio; Sandy Blair, yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Hugh Gardner, yn cynrychioli Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd, yr oeddynt ill dau, wedi bod yn aelodau o Fwrdd o Prosiect.

4.2 Roedd y Gweinidog wedi rhoi ei hymateb cyntaf i'r adroddiad yn y cyfarfod llawn yr wythnos flaenorol. Dywedodd ei bod yn falch bod y Pwyllgor wedi penderfynu cynnal adolygiad a fyddai'n ategu darganfyddiadau'r adroddiad. Roedd yn bwysig cydnabod bod llawer eisoes wedi'i wneud. Roedd yr adolygiad yn dibynnu'n drwm ar *Cadw Cydbwysedd* a'i argymhellion am gapasiti ysbytai aciwt, ac mae'r gwaith o roi'r argymhellion hynny ar waith eisoes ar droed. Mae £5 miliwn wedi'i neilltuo i ddatblygu capasiti yn y tymor byr a chynlluniau ar gyfer rhyddhau cleifion yn gynnar, yn ogystal â'r £7m a ddarparwyd y llynedd i dalu am gynyddu capasiti ysbytai aciwt. Cafodd y rhaglen 'Arloesi mewn Gofal' ei sefydlu yn 2001 gan fynd i'r afael â sawl maes pwysig yr oedd angen eu gwella, gan gynnwys systemau bwcio'n rhannol a mynediad i gleifion, a chafodd gwaith pwysig ei wneud hefyd trwy 'Hysbysu Gofal Iechyd' i ddatblygu gwybodaeth a TG. Gwnaeth yr Adolygiad gymeradwyo gogwydd gyffredinol *Gwella Iechyd yng Nghymru* – at atal salwch, ymyrraeth gynnar, gofal sylfaenol gwell, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol i ysgafnhau'r pwysau ar y sector aciwt. Bydd Cyfarwyddwr GIG Cymru nawr yn sefydlu tîm i baratoi cynllun cyflawni erbyn yr hydref.

4.3 Dywedodd Paul Williams nad ar chwarae bach y mae dod ag iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd. Bydd yn rhaid wrth gynllun ystyrlon wedi'i gostio ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ynghyd â mwy o fuddsoddi mewn TG ac ystadau. Mae'n bwysig sylweddoli meddai bod yn rhaid hefyd wrth lefel briodol o fuddsoddiad i sicrhau canlyniadau yn y tymor byr. Bu tuedd yn y gorffennol i ddelio â phroblemau tymor byr heb fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Mae angen cael hyd i ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau a chynnal trafodaeth gytbwys, yn fuan yn y broses, i newidiadau gael eu gwneud yn y tymor byr.

4.4 Dywedodd Hugh Gardner ei fod yn croesawu'r adroddiad gan ei fod yn tynnu sylw at lawer o bynciau oedd wedi'u hanwybyddu yn y gorffennol. Roedd hefyd yn croesawu'r olwg gytbwys ar iechyd a gofal cymdeithasol gan ei fod yn rhoi ffocws a phwrpas i'r bartneriaeth ac yn cynnig sialensau i ofal cymdeithasol. Croesawai'r argymhelliad i symud tuag at y

cysyniad o wasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei ddarparu'n lleol. Roedd yn falch bod yr adroddiad yn ymdrin â'r goblygiadau ariannu i lywodraeth leol ac yn cydnabod y pwysau sydd ar y sector gofal cymdeithasol.

4.5 Dywedodd Sandy Blair mai peth da oedd bod yr adolygiad mor wahanol i'r un gafodd ei gynnal yn Lloegr am ei fod yn cydnabod y berthynas rhwng iechyd, llywodraeth leol a gofal cymdeithasol. Mae angen i lywodraeth leol, wrth geisio gwell gwasanaethau, edrych ar bethau mewn ffordd fwy holistig. Mae gwasanaethau eraill awdurdodau lleol, yn ogystal â gofal cymdeithasol, yn effeithio ar iechyd. Nid yw CLILC yn cefnogi'r farn y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn wasanaeth cenedlaethol. Ond maen nhw'n sylweddoli bod angen meini prawf perfformiad cenedlaethol a safonau cenedlaethol.

4.6 Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau canlynol:

Pennod 2: Sicrhau ein Hiechyd i'r Dyfodol: Golwg Tymor Hir ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

- ◆ Er bod angen edrych ar bethau o safbwynt hirdymor, mae yna bobl â phroblemau aciwt y mae angen atebion arnynt ar unwaith. Mae angen chwilio am ffordd i gadw'r ddysgl yn wastad yn hyn o beth.
- ◆ Yr her ar y funud yw lleihau amserau aros, ond mae angen strategaethau mwy hirdymor nawr i wella capasiti, a recriwtio a chadw staff yn well, yn enwedig yn y sectorau gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol arwain y ffordd yn hyn o beth.
- ◆ Ychydig o sôn a fu yn yr adroddiad am gyfraniad gwerthfawr gofalwyr anffurfiol a'r sector gwirfoddol.
- ◆ Mae angen trafodaeth â'r cyhoedd i weld beth maen nhw am i'r GIG ei roi iddyn nhw.

Pennod 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru Heddiw

- ◆ Mae angen edrych ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu ar fyrder. Mae yna problemau capasiti yn y sectorau gofal iechyd a chymdeithasol ac mae swyddi gweigion, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol, yn effeithio ar safon y gofal. Yn y gwasanaethau cymdeithasol, mae amrywiadau yn lefelau'r sgiliau yn destun pryder. Mae'r adroddiad, ynghyd ag ymdrin â chanlyniadau adroddiadau cyd-adolygiadau diweddar, yn dweud bod recriwtio gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn broblem amlwg a bod angen amcanion tymor byr i leddfu'r problemau hyn.
- ◆ Er bod prosesau cynllunio'r gweithlu wedi gwella, roedd yna dal wendidau sylfaenol yn y system.
- ◆ Mae eisiau gweld y gwelliannau iechyd y mae'r arian ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi yn eu darparu.
- ◆ Mae angen gwella rheolaeth ariannol o fewn y GIG.
- ◆ Dylid defnyddio ysbytai cymunedol yn well.
- ◆ Gan fod cleifion sy'n ymadael ag ysbyty yn ei chael hi'n anodd cael therapi galwedigaethol a therapi lleferydd, mae problemau yn aml yn dychwelyd ac weithiau, rhaid i'r claf fynd yn ôl i'r ysbyty.
- ◆ Cyfeiriodd yr adroddiad at broblemau â gofal sylfaenol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Mae angen targedu adnoddau i'r ardaloedd lle mae'r angen fwyaf.
- ◆ Rhaid darparu gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol, a mynegwyd pryderon a yw cytundebau polisi yn ddigon cadarn yn hyn o beth.
- ◆ Mae angen newid agwedd gweithwyr proffesiynol ynghylch yr hyn y gellid ei ddarparu.
- ◆ Mae angen buddsoddi mwy mewn hybu iechyd ac atal afiechyd. Dylai'r llywodraeth fynd â phenderfyniadau'r Cynulliad ar faterion fel gwahardd smygu mewn mannau cyhoeddus yn eu blaenau.

Pennod 4: Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn y Dyfodol

- ◆ Croesawyd yr argymhelliad i wneud cadeiryddion a phrif weithredwyr cyrff y GIG yn fwy atebol.
- ◆ Dylid mabwysiadu'r fformwla ariannu anghenion uniongyrchol yn llawn cyn gynted â phosibl.
- ◆ Bydd gan Fyrddau Iechyd Lleol ran allweddol i'w chwarae o ran defnyddio cyllidebau cyfun.

4.7 Wrth ymateb i sylwadau'r aelodau, dywedodd y Gweinidog bod yn rhaid cael consensws y cyhoedd i symud ymlaen. Rhaid osgoi dyblygu ymdrechion a gwastraff a herio amrywiadau yn y gwasanaethau a ddarperir. Roedd Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru wedi comisiynu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru mewn ffordd integredig. Byddai'r fframwaith yn cynnwys ysbytai cymunedol. Pobl leol, gweithwyr proffesiynol, gofalwyr, cynrychiolwyr y sector gwirfoddol ac ati yw aelodau Byrddau Iechyd Lleol a byddai'r Byrddau'n gyfrwng i fynd â'r gwaith yn ei flaen. Roedd yr adolygiad yn galw am weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r oedi wrth drosglwyddo gofal ac efallai y bydd angen rhoi cynnig ar sawl ffordd i wneud hyn. Bydd y £4m o arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau gostyngiad cynaliadwy yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru. Daw'r arian trwy'r Byrddau Iechyd Lleol ac mae tîm rheoli perfformiad wedi'i sefydlu o dan gadeiryddiaeth Jane Jeffs, i'r perwyl hwn gan roi peth annibyniaeth i'r broses.

4.8 Gwnaeth Hugh Gardner y pwyntiau ychwanegol hyn:

- ◆ Roedd yn amau a yw'r cytundebau polisi yn ddigon cadarn.
- ◆ Diffyg ariannu difrifol i wasanaethau pobl hŷn yng Nghymru ac nid yw anghenion pobl yn eu cartrefi yn cael eu diwallu.
- ◆ Nid yw'n bosibl recriwtio'r niferoedd sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau. Canlyniad hynny yw oedi wrth drosglwyddo gofal.
- ◆ Roedd angysondeb rhwng cyflogau'r sector gofal cymdeithasol a chyflogau'r GIG. Roedd cyflogau gweithwyr yn y sector preifat hyd yn oed yn is.

4.9 Gwnaeth Sandy Blair y pwyntiau ychwanegol hyn:

- ◆ Yn y blynyddoedd diwethaf, bu mwy o fesur a monitro ar lywodraeth leol nag erioed. O ganlyniad mae llai yn cael ei wario ar hyfforddiant o ansawdd da i reolwyr. Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn ceisio unioni hyn.
- ◆ Nid oedd y cylch cyntaf o gytundebau polisi wedi bod yn neilltuol o drylwyr. Ond mae'r cysyniad yn un pwysig sy'n cysylltu amcanion strategol y Cynulliad â gwaith llywodraeth leol.
- ◆ Mae'r oedi wrth drosglwyddo gofal yn broblem enfawr. Mae defnydd da wedi'i wneud o adnoddau ychwanegol, ond mae'r galw yn fwy na'r gallu i ddarparu. Mae'n bwysig cofio hefyd bod ymyrraeth cynt a rheoli'r galw yn gallu rhwystro pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf.

Gweithredu

- ◆ Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Jocelyn Davies gyda'r diweddaraf am y cynllun cleifion arbenigol.
- ◆ Dosbarthu manylion lle ceir oedi wrth drosglwyddo gofal yn y sectorau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Eitem 5: Cyllideb 2004-2005 (12.20-12.35pm)

Papur: HSS(2)-03-03(p.4)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor â'r cynigion ym mhapur y Gweinidog ond gan bwysleisio pwysigrwydd y canlynol:

- ◆ cwrdd â chostau contract y GMS;
- ◆ mabwysiadu'r fformwla ariannu anghenion uniongyrchol yn llawn;
- ◆ gofalu bod modd rhoi argymhellion yr Arolwg o lechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith;
- ◆ cefnogi 'Fulfilling the Promises'.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor.

Gweithredu

- ◆ Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor.
- ◆ Paratoi rhaglen waith ar gyfer Comisiwn lechyd Cymru erbyn yr hydref,

Eitem 6: Rhestr o'r is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (12.35 - 12.40pm)

Papur: HSS(2)-03-03(p.5)

6.1 Nododd y Pwyllgor yr eitemau canlynol i'w hystyried:

lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

HSS-8(03)	Rheoliadau Cynghorau lechyd Cymuned (Cymru) 2004
HSS-9(03)	Rheoliadau Byrddau lechyd Lleol (Sefydlu) (Diwygio) (Cymru) 2003
HSS-13(03)	Rheoliadau Asiantaethau Gofal yn y Cartref (Cymru) 2003
HSS-33(03)	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Cymru) 2004
HSS-34(03)	Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

FSA-30(03)	Olrhain a Labelu Bwyd GM
FSA-50(03)	Bwyd a Phorthiant GM

6.2 Mewn ymateb i gwestiwn gan Jocelyn Davies, dywedodd y Gweinidog ei bod am osgoi defnyddio'r weithdrefn weithredol yn ystod toriad yr haf, ond bydd adegau lle gall pobl yng Nghymru gael eu rhoi o dan anfantais pe bai'n gwneud hynny. Bydd yn ysgrifennu at y Cadeirydd os bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

Eitem 7: Rheoliadau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol (Diwygiadau ynghylch Rhagnodi gan Nyrsys Atodol ac Annibynnol) (Cymru) 2003; Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003; Rheoliadau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003

Papur: HSS(2)-03-03(p.6) (12.40 - 12.50pm)

7.1 Cyfeiriwyd y gorchmynion drafft i'r Pwyllgor gan y Dirprwy Lywydd ar 1 Gorffennaf ar gyngor y Pwyllgor Busnes. Rhaid i'r Pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn pedair wythnos yn unol â Rheol Sefydlog 22.7.

7.2 Cafodd y rheoliadau drafft eu trin o dan y protocol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar gyfer delio ag is-ddeddfwriaeth. Yn ôl y protocol mae'r aelodau'n nodi ymlaen llaw unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu unrhyw welliannau i'r drafft.

Pwyntiau o Eglurhad a'r Gwelliannau a Gynigwyd gan yr Aelodau

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau ynghylch Rhagnodi gan Nyrsys Atodol ac Annibynnol) (Cymru) 2003

7.3 Nid oedd yr Aelodau wedi nodi unrhyw ymholiadau na gwelliannau mewn perthynas â'r rheoliadau hyn.

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003.

7.4 Ymddiheurodd y Gweinidog bod fersiwn anghywir y rheoliad wedi'i ddsbarthu. (*Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003*). Mae cryn wahaniaeth rhyngddynt am fod Diwygiad Rhif 2 yn tynhau'r cynllun gwobrwyo fferyllwyr fel cam arall i atal ceisiadau twyllodrus. Felly, penderfynwyd nad oedd diben trafod y rheoliadau drafft a ddsbarthwyd.

7.5 Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor wrthod y Rheoliadau yn ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 22.7 am fod y drafft yn anghywir.

Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003 ***Gwelliannau a gynigwyd gan Kirsty Williams AC, Democratiaid Rhyddfrydol***

Gwelliant 1: Atodlen 2, paragraff 4 - dileu gweddill y paragraff ar ôl "neu'r swydd honno i ben".

7.6 Bydd y gwelliant arfaethedig yn lleihau'r potensial y gallai person a ddiswyddwyd am ymddygiad annerbyniol gamddefnyddio'r ddadl nad yw'n 'rhesymol ymarferol' cael cadarnhad pam fod y swydd wedi dod i ben. Teimlwyd y byddai'r gwelliant hwn yn ffordd arall i ddiogelu plant a phobl fregus.

Ymateb y Gweinidog

7.7 Ni dderbyniwyd y gwelliant am mai Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu a oedd y gweithredu'n 'rhesymol ymarferol' ai peidio.

7.8 Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 1

O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 3

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Jocelyn Davies
Dai Lloyd
Val Lloyd
David Melding
Jonathan Morgan
Gwenda Thomas
Kirsty Williams

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

John Griffiths
Jane Hutt
Lynne Neagle

Casgliad

7.9 Cymeradwywyd y gwelliant.

Gwelliant 2: Atodlen 2, paragraff 7 - dileu gweddill y paragraff ar ôl "yn y swydd honno".

7.10 Cynigiwyd y gwelliant hwn am yr un rheswm â gwelliant 1.

7.11 Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 2

O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 3

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Jocelyn Davies
Dai Lloyd
Val Lloyd
David Melding
Jonathan Morgan
Gwenda Thomas
Kirsty Williams

John Griffiths
Jane Hutt
Lynne Neagle

Casgliad

Cymeradwywyd y gwelliant.

7.12 Bydd adroddiad ar gasgliadau'r Pwyllgor ar y tair set o Reoliadau yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn ac i'r Gweinidog.

Eitem 8: Cofnodion (12.50 - 12.55pm)

Papur: HSS(2)-02-03(min)

8.1 Cymeradwywyd cofnodion 25 Gorffennaf heb eu newid. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.